| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **26 Gorffennaf 2012** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau /Pennaeth Cyllid ac Asedau** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cyllid ac Asedau** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cyllid 2012/13** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad hwn yn sôn?**

Mae'r adroddiad amgaeedig yn Adroddiad Cyllid a gyflwynwyd i'r Cabinet yn gynharach y mis hwn; mae'n adolygu safle cyllidol y Cyngor fel ag yr oedd ar ddiwedd mis Mehefin 2012. Cynhwysa'r adroddiad gyllideb refeniw'r Cyngor a'r gyllideb Cyfrif Refeniw Tai.

**2. Beth yw'r rheswm dros greu'r adroddiad hwn?**

Adolygu perfformiad y Cyngor yn erbyn ei strategaeth gyllidebol ar gyfer 2012/13, fel y diffinnir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC).

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Nodi'r safle ariannol diweddaraf ac adnabod meysydd o orwariant/tanwariant posib a phwysau cyllidebol a gweithredu strategaeth gyllidebol y Cyngor a'r CATC.

**4. Manylion yr Adroddiad.**

Mae'r adroddiad amgaeedig yn ymdrin â safle'r gyllideb refeniw ddiweddaraf, cynnydd o ran gwireddu arbedion hyd yma a chrynodeb o'r cyfrif refeniw tai a'r cynllun cyfalaf tai.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Rheolaeth effeithiol o gyllidebau cyfalaf a refeniw'r Cyngor a gweithredu'r strategaethau cyllidebol a gytunwyd sy'n ffurfio sylfaen gweithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?**

Cyfeiriwch at yr adroddiad cabinet amgaeedig; adroddir y manylion yn llawn yno.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Argymhellwyd y gyllideb refeniw gan y Cabinet a chytunwyd yn ffurfiol gan y Cyngor yn dilyn cylched helaeth o heriau gwasanaeth. Cymeradwywyd y cynllun cyfalaf gan y cyngor yn dilyn craffu gan Grŵp Strategol Asedau a Chyfalaf ac argymhelliad gan y Cabinet. Cymeradwywyd y Cyfrif Refeniw Tai yn dilyn ymgynghoriad gydag aelodau etholedig a chynrychiolwyr y ffederasiwn tenantiaid.

## 8. Datganiad gan y Prif Swyddog Cyllid

Cynhwysir datganiad llawn y Prif Swyddog Cyllid yn yr adroddiad Cabinet amgaeedig.

## 9. Beth yw'r peryglon ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Gweler yr adroddiad cabinet amgaeedig.

## 10. Y Pŵer i wneud Penderfyniad

Mae angen i awdurdodau Lleol wneud trefniadau o dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.

**Swyddog Cyswllt:**
Prif Gyfrifydd
01824 706090